

Crynodeb Gwirio Ansawdd  
Practis Deintyddol West Cross  
Dyddiad y gweithgarwch: 18 Hydref 2021

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol West Cross fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig triniaeth ddeintyddol y GIG yn unig ac mae ganddo un deintydd a thair nyrs ddeintyddol. Mae Practis Deintyddol West Cross yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r prif ddeintydd ar 18 Hydref 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Polisi glanhau'r practis

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Darparodd y prif ddeintydd fanylion o'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis a oedd yn caniatáu gweld cleifion yn ystod y pandemig COVID-19. Er mwyn diogelu cleifion a staff, dywedwyd wrthym fod drws ffrynt y practis wedi'i gloi, gan sicrhau mai dim ond yr unigolion hynny ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw a allai fynd i mewn i'r practis. Dywedwyd wrth gleifion i ddod gan wisgo masg a dywedwyd wrthynt am hysbysu'r derbynnydd eu bod wedi cyrraedd trwy'r gloch drws fideo. Wedyn, byddai cleifion yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19 a'u danfon yn uniongyrchol o ddrws ffrynt y practis i'r ystafell driniaeth.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod posterï wedi'u gosod ar waliau'r grisiau sy'n arwain i'r ddeintyddfa i atgoffa cleifion o'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer COVID-19. Dywedwyd wrthym fod hwn yn bractis un deintydd ag un ystafell driniaeth ac felly cafodd amseroedd apwyntiadau eu rheoli'n llym i sicrhau mai dim ond un claf a ganiateir i'r practis ar unrhyw adeg. Roedd man aros y practis ar gau i gleifion.

Gwnaethom ofyn am ba fesurau oedd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu'n gyson am y gweithdrefnau diogelwch sy'n gysylltiedig â COVID-19. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ei ffonio cyn ei apwyntiad i egluro gweithdrefnau diogelwch COVID-19 a thaith y claf. Byddai cleifion yn cael y cyfle yn ystod y galwad ffôn hwn i ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt ynglŷn â'r gweithdrefnau diogelwch sydd ar waith. Roedd y camau hyn yn helpu i leihau faint o amser y byddai angen i gleifion ei dreulio yn y practis.

Gwnaethom ofyn pa fesurau y mae'r practis wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r rhai a oedd yn dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod posterï sy'n annog cleifion i gyfathrebu yn y Gymraeg yn cael eu harddangos yn y practis. Hefyd, roedd deunydd darllen y practis ar gael yn y Gymraeg. Er nad oedd gan y practis unrhyw staff Cymraeg, dywedwyd wrthym fod gan y practis fynediad at gyfleuster llinell iaith sydd ar gael trwy'r bwrdd iechyd lleol a fyddai'n darparu cyfleusterau cyfieithu os oes angen.

---

Eglurodd y prif ddeintydd fod mynediad i'r practis trwy risiau serth. Felly, nid oedd yn bosibl i'r cleifion hynny â gofynion symudedd gyrchu'r practis. Er mwyn sicrhau y gallai cleifion â'r gofynion hynny dderbyn gofal deintyddol, eglurodd y prif ddeintydd eu bod yn atgyfeirio cleifion i ddeintyddfa leol gerllaw neu i'r gwasanaeth deintyddol cymunedol lleol. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod gan y practis bolisiâu cydraddoldeb ac amrywiaeth a gwrth-wahaniaethu cyfredol a lofnodwyd gan yr holl staff i sicrhau dealltwriaeth. Yn ogystal, dywedodd y prif ddeintydd wrthym y byddent yn prynu dolen clyw i'r cleifion hynny sydd trwm eu clyw.

Gwnaethom weld tystiolaeth o bolisi glanhau practis a chynlluniau glanhau'r ddeintyddfa a oedd yn ystyried mwy o fesurau ar gyfer COVID-19. Roedd hefyd asesiad risg cyfredol ar gyfer y practis a oedd yn arddangos amgylchedd practis diogel. Roedd y dogfennau hyn yn rhestru amrywiaeth o risgiau, mesurau rheoli a rhagofalon a oedd ar waith i liniaru'r risgiau sydd wedi'u pwysleisio.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint i helpu i gadw cleifion, staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Copi o'r archwiliad dihalogi diweddaraf a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg / archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaeth y prif ddeintydd gadarnhau'r prosesau sydd ar waith i ddiogelu cleifion a staff pan oedd gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau<sup>1</sup> yn cael ei chynnal. Roedd y broses hon yn dilyn yr arweiniad diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Cafodd yr holl staff yr wybodaeth ddiweddaraf am yr arweiniad a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol trwy gyfarfodydd staff rheolaidd a hysbysiadau a anfonir trwy gymhwysiad negeseua symudol grŵp.

---

<sup>1</sup> Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy defnyddiau.

---

Dywedwyd wrthym na osodwyd unedau hidlo awyr eto yn yr ystafell driniaeth i alluogi cyfnod segur byrrach rhwng cleifion. Yn lle, byddai ffenestr fawr yn cael ei hagor a byddai'r cyfnod segur yn cael ei gynyddu i 30 munud yn unol â'r canllawiau cyfredol. Gwelsom dystiolaeth o bolisi COVID-19 cyfredol yr oedd fersiynau ohono'n cael eu rheoli, roedd yn cael ei ddyddio, ac roedd yn unol â'r canllawiau cyfredol.

Gwnaethom gadarnhau'r broses i wirio nad oedd cleifion a oedd yn dod i'r practis yn arddangos symptomau COVID-19 gyda'r prif ddeintydd. Cawsom wybod y byddai cleifion yn cael eu ffonio cyn eu hapwyntiad ac y byddai cyfres o gwestiynau sgrinio yn cael ei gofyn iddynt. Wedyn, byddai cleifion yn cael eu hailsgrinio wrth gyrraedd y practis. Pe bai claf a oedd yn arddangos symptomau COVID-19 yn mynychu, byddai staff yn gofyn i'r claf aildrefnu apwyntiad a byddent yn rhoi cyngor pe bai'r claf mewn poen.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant y staff wrth ddefnyddio cyfarpar diogelu personol uwch yn gyfredol, gan gynnwys y dull cywir o wisgo a diosg.<sup>2</sup> Cyflawnwyd hyn trwy sesiwn hyfforddi neilltuedig a gynhaliwyd yn y practis. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir, gan gynnwys masgau FFP3,<sup>3</sup> gynau, ffedogau a feisorau wrth drin cleifion a bod staff wedi cael eu ffitio'n broffesiynol ar gyfer eu masgiau gan brofwr ffitio ardystiedig o'r bwrdd iechyd lleol. Yn ogystal, arddangoswyd pethau gweladwy, fel posteri, i atgoffa staff o'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol mewn mannau amlwg yn yr ardaloedd gwisgo, diosg a thriniaeth.

Yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau, gwnaeth y prif ddeintydd gadarnhau y byddai llen rwber<sup>4</sup> yn cael ei defnyddio pan fo hynny'n bosibl i leihau'r risg a berir gan ronynnau a gludir trwy'r awyr (aerosolau)<sup>5</sup> ochr yn ochr â sugno cyfaint uchel.<sup>6</sup> Roedd yr ystafell driniaeth wedi'i chlirio'n gyfan gwbl o unrhyw offer diangen a byddai'n cael ei pharatoi fesul claf gyda'r offer y byddai ei angen yn unig.

Pan ofynnwyd am drefniadau ar gyfer cyrchu cyfarpar diogelu personol, dywedwyd wrthym fod y cyfrifoldeb dros wirio stoc wedi'i ddirprwyo i aelod penodol o staff a fyddai'n gwirio'r stoc bob wythnos. Nid oedd y practis wedi profi unrhyw anawsterau wrth gyrchu cyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig ac roedd yn parhau i gael ei gefnogi'n dda gan y bwrdd iechyd lleol.

---

<sup>2</sup> Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

<sup>3</sup> Nodir yr angen i wisgo masg FFP3 (masg untro sy'n gorchuddio'r trwyn a'r geg ac yn rhoi amddiffyniad anadlol) trwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i amddiffyn rhag pathogenau a gludir yn anadlol. Er mwyn defnyddio'r masgiau hyn, mae'n rhaid i staff gael 'prawf ffitio' er mwyn sicrhau y gallant sicrhau ffit wyneb addas ar gyfer y masg a'i fod yn gweithredu ar yr effeithlonrwydd gofynnol.

<sup>4</sup> Mae llen rwber neu len ddeintyddol yn daflen denau o latecs neu ddeunydd heb latecs. Mae'n cael ei defnyddio i ynysu dannedd rhag gweddill y geg yn ystod gweithdrefn ddeintyddol, er mwyn gwella llwyddiant atgyweiriadau i ddannedd.

<sup>5</sup> Gall aerosolau deintyddol gludo feirysau a throsglwyddo heintiau.

<sup>6</sup> Dyfais sugno sy'n tynnu cyfaint mawr o aer dros gyfnod o amser yw gwagiwr cyfaint uchel.

---

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar ac a oedd yn cydymffurfio, rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer, ac amserlenni glanhau a oedd yn cwmpasu'r pythefnos blaenorol.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad deallus
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i'r holl staff
- Aseidiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch y staff

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym gan y prif ddeintydd fod y practis wedi cau i gleifion ar ddechrau'r pandemig. Fodd bynnag, gwnaeth y practis barhau i ddarparu cymorth a chyingor dros y ffôn i gleifion mewn argyfwng deintyddol.

Roedd y prif ddeintydd yn ganmoliaethus o'r staff, gan ddweud wrthym eu bod yn dîm agos iawn sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi addasu'n dda, er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan y pandemig. Roedd y practis wedi'i staffio'n llawn drwy'r amser ac nid oedd angen iddo ddefnyddio staff asiantaeth.

Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd cyfarfodydd staff rheolaidd i roi diweddariadau i arweiniad a gwybodaeth yn ôl yr angen i staff. Dyma oedd y dull a ffefrir gan y practis i sicrhau bod y staff yn deall eu rolau o fewn y practis. Roedd y practis hefyd yn defnyddio gwasanaeth negeseua symudol i hysbysu staff am unrhyw ddiweddariadau a chysiau ac i wirio llesiant staff.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis broses archwilio gadarn ar waith a rhoddwyd enghreifftiau inni a oedd yn cwmpasu radiograffeg a chadw cofnodion. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod y prosesau archwilio wedi parhau trwy gydol y pandemig a thrafodwyd canlyniadau gyda staff yn ystod cyfarfodydd y practis. Cafwyd yr archwiliadau hyn eu hailadrodd yn rheolaidd i sicrhau y cynhaliwyd gwelliannau.

---

Gwnaethom ofyn i'r prif ddeintydd ddisgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau a oedd yn sicrhau bod cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys yn bresennol ac o fewn eu dyddiad. Dywedwyd wrthym fod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio bob wythnos ar ddiwrnod neilltuedig gan yr aelod uchaf o staff nyrsio . Roedd cyffuriau a oedd yn agos at eu dyddiad yn cael eu harchebu gan yr un aelod o staff i'w disodli. Mae gan y practis ddiffibriliwr allanol awtomatig<sup>7</sup> a chafodd hwn ei wirio bob wythnos ochr yn ochr â'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys i sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir a bod ganddo ddigon o bŵer batri drwy'r amser.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Darparodd y practis gofnod cynhwysfawr wedi'i gwblhau o hyfforddiant gorfodol a oedd yn arddangos bod yr holl staff yn gyfredol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r rhan fwyaf o ofynion hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad yw tri aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth bywyd sylfaenol<sup>8</sup> ers mis Mawrth 2020. Dywedwyd wrthym gan y prif ddeintydd fod hyn yn sgil anawsterau wrth gyrchu'r hyfforddiant hwn yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym y trefnwyd i staff fynychu cwrs ar-lein gyda'r ddeoniaeth leol<sup>9</sup> i ymgymryd â'r rhan ddamcaniaethol o'r hyfforddiant hwn a byddai'r rhan ymarferol yn dilyn hwn.

Mae'n rhaid i'r prif ddeintydd sicrhau bod staff wedi cwblhau eu hyfforddiant cymorth bywyd sylfaenol ar-lein a hysbysu AGIC ar ôl cwblhau hwn.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, dywedwyd y prif ddeintydd wrthym y cedwir y glwcagon a ddefnyddir mewn achos brys mewn cwpwrdd sy'n cael ei awyru lle nad yw'r tymheredd yn cael ei reoli, ac nid oedd yn destun gwiriadau tymheredd rheolaidd. Gan fod tymheredd yn cael effaith ar rychwant oes y cyffur hwn, mae'n bwysig gwirio hwn yn rheolaidd ac addasu'r dyddiadau darvoud yn ôl yr angen.

Mae'n rhaid i'r prif ddeintydd sicrhau y cynhelir gwiriadau tymheredd bob dydd ar y cwpwrdd lle y cedwir y glwcagon a ddefnyddir mewn achos brys. Mae angen cynnal cofnod o'r gwiriadau hyn ar ffeil a'u cadw ar gyfer unrhyw adolygiad yn y dyfodol.

---

<sup>7</sup> Mae diffibriliwr allanol awtomatig yn ddyfais electronig gludadwy sy'n gwneud diagnosis awtomatig o arhythmia cardiaidd mewn achosion o ffibriliad fentriglaidd a thacycardia fentriglaidd di-bwls sy'n gallu peryglu bywydau. Mae'n eu trin trwy ddiffibrilio, sef y defnydd o drydan, sy'n atal yr arhythmia, gan alluogi'r galon i ailsefydlu rhythm effeithiol.

<sup>8</sup> Yn gyffredinol, mae cymorth bywyd sylfaenol yn cyfeirio at y math o gymorth y mae ymatebwyr cyntaf, darparwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol diogelwch cyhoeddus yn ei roi i unrhyw un sy'n profi ataliad y galon, trallod anadlol neu lwybr anadlu wedi'i rwystro. Mae'n gofyn am wybodaeth a sgiliau adfywio cardio-pwlmonaidd, gan ddefnyddio diffibrilwyr allanol awtomatig a lliniaru rhwystrau'r llwybr anadlu mewn cleifion o bob oedran.

<sup>9</sup> Mae deoniaeth GIG yn sefydliad rhanbarthol sy'n gyfrifol am hyfforddiant meddygol a deintyddol i raddedigion, o fewn strwythur y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.



## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod dystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol West Cross

Dyddiad y gweithgarwch: 18 Hydref 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Mae'n rhaid i'r prif ddeintydd sicrhau bod staff wedi cwblhau eu hyfforddiant cymorth bywyd sylfaenol ar-lein a hysbysebu AGIC ar ôl cwblhau hwn.	Safon 7.1 Y Gweithlu (Safonau Iechyd a Gofal 2015)	Mae hyfforddiant cymorth bywyd sylfaenol eisoes wedi'i drefnu a thalwyd amdano trwy AaGIC. Rydym yn aros am ddolen i'r elfen hyfforddiant ar-lein cyn i'r sesiwn ymarfer. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, byddaf yn hysbysu AGIC.	Andrew Llewelyn	Cyn gynted â phosib - yn aros am gyswllt gan AaGIC
2	Mae'n rhaid i'r prif ddeintydd sicrhau y cynhelir gwiriadau tymheredd bob dydd ar y cwpwrdd lle y cedwir y glwcagon a ddefnyddir mewn achos brys. Mae angen cynnal cofnod o'r gwiriadau hyn ar ffeil a'u cadw ar gyfer unrhyw adolygiad yn y dyfodol.	Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau (Safonau Iechyd a Gofal 2015)	Wedi prynu thermomedr a llyfr nodiadau cofnodion. Mae cofnodi tymhereddau eisoes wedi'i gynnwys yn y gwiriadau wythnosol ar gyfer y diffibrilwyr a'r pecyn cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys.	Kaylee Evans	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Andrew Llewellyn

Dyddiad: 3-11-21